

ALLWEDD

 Taith Taf	 Arcedau
 Llys yr Esgob	 Heol Eglwys Fair
 Insole Court	 Afon Taf
 Ysgol Howells	 Llong Ysbyty Hamadryad
 Gerddi Sophia	 Y llong ddrylliedig Louisa
 Heol y Gadeirlan	 Y Gyfnewidfa Lo
 Parc Bute	 Stryd Bute
 Y Ganolfan Ddinesig	 Adeilad y Pierhead
 Camlas Gyflenwi Dociau Bute	 Tiger Bay
 Y Brodyr Duon	 Bae Caerdydd
 Porth y Gorllewin	 Dociau Caerdydd
 Castell Caerdydd	 Yr Eglwys Norwyiaidd
 Wal yr Anifeiliaid	 Ffyn Morticels

HANES TAITH TAF LLANDAF I FAE CAERDYDD

Diben y daflen hon yw rhoi gwybodaeth am hanes coridor Taf yng Nghaerdydd. Mae'n cwmpasu'r ardal rhwng Llandaf a Bae Caerdydd.

Os ewch am dro ar hyd yr afon, fe welwch lawer o adeiladau a nodweddion diddorol sy'n rhoi cipolwg i chi o orffennol Caerdydd.


Cliciwch ar yr eiconau i gael gwybod mwy...

I gael rhagor o wybodaeth am gyfleoedd eraill i fwynhau cefn gwlad ar garreg eich drws, cysylltwch â Thim Cefn Gwlad y Cyngor.

Ffôn: 029 2087 3215

E-bost: cefn gwlad@caerdydd.gov.uk

Gwefannau: www.caerdydd.gov.uk/cefn gwlad
www.caerdydd.gov.uk/bioamrywiaeth



LLYS YR ESGOB

Credir yr adeiladwyd Llys yr Esgob gan un o esgobion Llandaf yn ystod y 13eg ganrif fel rhan o ardd. Fe'i gelwid hefyd yn Gastell yr Esgob neu Gastell Llandaf. Rhoddwyd y strwythur i Gyngor Caerdydd ac yna fe'i agorwyd i'r cyhoedd. Mae bellach yn adeilad rhestredig gradd I oherwydd ei bwysigrwydd fel preswylfa Esgob ganoloesol, a dywedir mai hon yw unig breswylfa clerigwyr canoloesol Llandaf sydd wedi goroesi.

INSOLE COURT

Mae Insole Court yn blasty gothig Fictoraidd yn Llandaf a adeiladwyd ganol y 19eg ganrif. Ei enw gwreiddiol oedd Llys Trelái, a'i berchenogion oedd y teulu Insole, perchnogion pyllau glo a chwmni llongau, a thyfodd eu cyfoeth wrth i'r diwydiant glo ffynnu. Ar anterth eu cyfoeth yn y 19eg Ganrif, caffaelwyd lleiniau mawr o dir, yn cynnwys y tir lle adeiladwyd y Llys.

Dechreuodd y gwaith adeiladu yn y 1850au, ar raddfa ychydig yn llai yn wreiddiol. Wrth i gyfoeth y teulu gynyddu, daeth cyfle i ehangu, a chyfrannodd pob cenhedlaeth o'r teulu Insole at dwf y plasty a'r gerddi. Newidiodd golwg y Llys yn sylweddol yn sgil y ddau addasiad mwyaf nodedig.

Fel gyda'r rhan fwyaf o'r busnesau fu'n ymwneud â'r fasnach lo, dirywiodd cyfoeth y teulu wrth i'r diwydiant ddirywio. Gwerthwyd y tir yn 1932 a chaffaelwyd yr ystâd gan Gorfforaeth Caerdydd er mwyn adeiladu system ffyrdd newydd.

YSGOL HOWELLS

Rhoddodd Thomas Howells, masnachwr cefnog o Gymru, swm sylweddol o arian er mwyn sefydlu ysgol er mwyn addysgu merched amddifad. Ar ôl sefydlu ysgol debyg yn Ninbych, agorwyd Ysgol Howells, Llandaf, ddechrau'r 1860au. Mae'r ysgol yn adeilad rhestredig gradd II* ac mae bellach yn ysgol annibynnol i ferched.

YSGOL HOWELLS



GERDDI SOPHIA

Mae Gerddi Sophia yn barc cyhoeddus yng Nghaerdydd a enwyd ar ôl Sophia Rawdon-Hastings, sef ail wraig Ail Ardalydd Bute. Rhoddwyd i'r ddinas ynghyd â Pharc Bute, Caeau Pontcanna a Chaeau Llandaf ac mae bellach yn rhan o ardal agored fawr sy'n boblogaidd gyda phobl leol ac ymwelwyr. Gerddi Sophia yw cartref Stadiwm SWALEC a Chanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru erbyn hyn.

GERDDI SOPHIA



HEOL Y GADEIRLAN

Datblygwyd Heol y Gadeirlan ddiwedd y 19eg ganrif gan y Trydydd Ardalydd Bute. Cyflogodd William Burges (pensaer Castell Caerdydd a Chastell Coch) i helpu i ddatblygu'r tir mewn arddull fanwl i safon uchel. Cyflawnwyd hyn drwy brydlesu lleiniau i adeiladwyr a phennu safonau i'w dilyn. Argymhellwyd penseiri hefyd er mwyn sicrhau yr adeiladwyd tai a oedd yn cyfateb i'r disgwyliadau uchel o ran ansawdd pensaernïol.

HEOL Y GADEIRLAN

Defnyddir gyda chaniatad caredig Llyfrgellau Caerdydd

Prif Fap

PARC BUTE

Parc Bute yng nghanol y ddinas yw un o ardaloedd mwyaf poblogaidd Caerdydd. Mae'r parc 130 erw ar lannau afon Taf yn cynnwys gerddi a dirluniwyd, gardd goed, gardd flodau a thiroedd hamdden.

Crëwyd y Parc yn wreiddiol gan y Prif Arddwr Andrew Pettigrew fel gardd breifat Castell Caerdydd ar gyfer teulu Bute. Ddiwedd yr 1940au, rhoddwyd rhan helaeth o'r tiroedd 56 erw i bobl Caerdydd i'w mwynhau. Mae Parc Bute bellach yn dirwedd hanesyddol ddynodedig restredig Gradd I.

Saif Canolfan Addysg newydd yn y parc bellach, ynghyd â chaffi'r Ardd Gudd. Mae Caban yr Haf ac Ystafelloedd Te newydd Pettigrew hefyd yn gweini lluniaeth i'r cyhoedd.

Sefydlwyd 'Grŵp Cyfeillion Parc Bute' yn ddiweddar er mwyn galluogi gwirfoddolwyr i helpu Cyngor Caerdydd i gynnal a chadw'r parc a sicrhau y bydd ar gael i'w ddefnyddio gan genedlaethau'r dyfodol.

Mae nodweddion eraill y parc yn cynnwys Priordy'r Brodyr Duon a Chamlas Gyflenwi Dociau Bute.



THE CIVIC CENTRE

Y GANOLFAN DDINESIG

Datblygwyd y Ganolfan Ddinesig ddechrau'r 1900au, ac fe'i dyluniwyd i gyfleu ymdeimlad o fawredd. Mae'r adeiladau'n cynnwys: Neuadd y Ddinas; Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Cymru; y Llysoedd Barn; ac adeiladau Prifysgol Caerdydd. Pennwyd cynllun ffyrdd ac adeiladau'r Ganolfan Ddinesig gan goed ar hyd Rhodfa'r Brenin Edward VII a Rhodfa'r Amgueddfa. Plannwyd y coed gan deulu Bute cyn gwerthu'r tir. Un o amodau'r teulu oedd bod rhaid cadw'r coed, a gellir eu gweld hyd heddiw yn bwrw eu cysgod dros y strydoedd.

Yn ogystal â'r adeiladau mawreddog, mae tri man agored prydferth yn y Ganolfan Ddinesig: sef Gerddi Alexandra, Gerddi'r Orsedd a lawnt Neuadd y Ddinas.

CAMLAS GYFLENWI DOCIAU BUTE

Mae rhan Parc Bute o'r Gamlas Gyflenwi i'w gweld ger Castell Caerdydd, gan ddilyn llwybr nant y felin ganoloesol fu'n troi'r melinau yd dan fur gorllewinol Castell Caerdydd. Yn ystod yr 1830au a'r 1840au, newidiwyd cwrs y gamlas gyflenwi er mwyn cyflenwi dŵr i'r dociau newydd, gan lifo o dan nifer o brif ffyrdd Caerdydd.

Gellir gweld rhannau eraill o'r Gamlas yn llifo wrth ochr Boulevard de Nantes, gan ddiflannu dan grombil y ddinas ac ailymddangos ger Arena Ryngwladol Caerdydd cyn llifo i Ddoc Dwyreiniol Bute.



Photo credits: www.whitchurchandllandaff.co.uk

CAMLAS GYFLENWI DOCIAU BUTE

Y BRODYR DUON

I'r gorllewin o Gastell Caerdydd saif olion priordy'r Brodyr Duon a sefydlwyd yn yr 11eg ganrif. Sefydlwyd urdd y Brodyr Duon (a elwid felly oherwydd eu gwisgoedduon) gan fab y brenin Harri I, a buont yng Nghaerdydd am dros 280 mlynedd.

Diddymwyd y mynachlogydd gan Harri VIII yn y 1530au, a dim ond yn ystod y 19eg ganrif y darganfuwyd yr olion tra roedd Ardalydd Bute yn adnewyddu ei erddi. Adferwyd y safle'n rhannol wedi hynny, a gellir gweld y bricwaith Fictoraidd hyd heddiw.

Yn sgil ymchwiliadau pellach, datgelwyd y defnyddid y safle fel man claddu, yn cynnwys Esgob a hyd yn oed mam-yng-nghyfraith Trydydd Ardalydd Bute!

Mae Priordy'r Brodyr Duon bellach yn heneb gofrestredig.



PORTH Y GORLLEWIN A MURIAU TREF CAERDYDD

Yn ôl cofnod hanesyddol o 1111, adeiladodd Robert Fitzhamon, Arglwydd Morgannwg, fur o amgylch y ddinas gyda phum porth. Roedd y mur tua milltir o hyd gyda thrwch o tua 7 troedfedd (2.1m) ar gyfartaledd, ac uchder o 10 troedfedd (3m) er mwyn cadw'r Cymry allan! Mae'n debyg bod rhannau o'r mur wedi disgyn yn y 18fed ganrif oherwydd esgeulustod, a defnyddiwyd nifer o'r meini fel deunydd adeiladu ar gyfer llawer o adeiladau eraill y ddinas. Dymchwelwyd rhan fawr olaf y mur yn 1901, a dim ond dwy ran o'r mur a erys bellach: mae un rhan yn cynnal gwely blodau i'r dwyrain o Gastell Caerdydd; ac mae'r ail ran yn ffurfio cefn siop ar Heol y Frenhines.

Cwblhawyd Porth y Gorllewin yn yr 1860au fel Porthdy addurniadol, a dyma'r unig enghraifft o un o Byrth Tref Caerdydd sy'n weddill. Mae Porth y Gorllewin bellach yn gartref Ystafelloedd Te Pettigrew; sef ystafell de draddodiadol Fictoraidd sy'n gweini te a choffi i'r cyhoedd. Fe'i enwyd er cof am Andrew Pettigrew, sef Prif Arddwr Trydydd Ardalydd Bute, ac mae'n lleoliad delfrydol am baned.



PORTH Y GORLLEWIN A MURIAU TREF CAERDYDD

CASTELL CAERDYDD

Mae muriau Castell Caerdydd yng nghanol y ddinas yn atseinio â hanes cyfoethog sy'n rhychwantu dros ddwy fil o flynyddoedd. Yn ystod y cyfnod hwn mae'r tiroedd wedi newid o fod yn Gaer Rufeinig, i Gastell Normanaidd ac wedyn Plasty Fictoraidd.

Tybir y sefydlwyd y Gaer Rufeinig tua 50AD, ac aildddefnyddiwyd y safle gan y Normaniaid i adeiladu Gorthwr tua 1091. Ers hynny, bu'r Castell yn eiddo i sawl teulu bonheddig tan iddo ddod i feddiant teulu Bute yn 1766.

Yr ail Ardalydd Bute fu'n gyfrifol am wneud Caerdydd yn un o brif borthladdoedd y byd o ran allforio glo, a daeth cyfoeth sylweddol i'r teulu yn sgil hynny. Ar ôl etifeddu cyfoeth teulu Bute, tybiwyd mai'r Trydydd Ardalydd oedd dyn cyfoethocaf y byd yn ystod yr 1860au, ac roedd fel petai ganddo gyflenwad di-bendraw o arian. Ef fu'n gyfrifol am gomisiynu'r "pensaer hynod" William Burges i drawsnewid y Castell ar lun ei ffantasi Gothig. Creodd Burgess gynlluniau mewnol coeth ar sail themâu gan ddefnyddio deunyddiau moethus megis marmor, ac addurnodd yr ystafelloedd â murluniau gwych a cherfiadau pren cywrain. Mae taith dywys drwy'r ystafelloedd gwych hyn yn un o uchafbwyntiau unrhyw ymweliad â'r Castell.

Roedd teulu Bute yn dal i fyw yn y Castell drwy gydol y 1920au a'r 1930au tan y penderfynwyd rhoi'r Castell a rhan helaeth o'i diroedd i ddinas Caerdydd. Mae'r Castell yn heneb o bwysigrwydd rhyngwladol bellach, ac mae'n un o atyniadau ymwelwyr mwyaf poblogaidd Cymru.

Am ragor o wybodaeth am Gastell Caerdydd, yn cynnwys manylion oriau agor a chyfleusterau, cliciwch yma.



CASTELL CAERDYDD

WAL YR ANIFEILIAID

Dyluniwyd Wal yr Anifeiliaid gan William Burges yn 1866, ond ni adeiladwyd tan 1890, ar ôl marwolaeth Burges yn 1881. Roedd y naw anifail gwreiddiol yn cynnwys hiena, blaidd, epaod, morlo, arth, llewes, lyncs, a dau lew gwahanol. Fe'u paentiwyd mewn lliwiau naturiol, er bod y paent wedi'i dynnu i ffwrdd o'r cerfluniau ers hynny.

Yn 1922, symudwyd y wal o'r tu blaen i Gastell Caerdydd i'w lleoliad presennol y tu allan i Barc Bute oherwydd gwaith i ledaenu'r ffordd. Ychwanegwyd chwe anifail arall yn 1931; sef y pelican, morgrugysor, racwniaid, llewpart, llostlydan a fwltur.

Fel rhan o'r gwaith gwerth £5.6 miliwn i adnewyddu Parc Bute, dechreuodd y gwaith o adfer yr anifeiliaid yn 2010. Yn ystod y gwaith atgyweirio, gosodwyd trwyn newydd ar y morgrugysor, a fu heb drwyn ers diwedd y 1990au, yn ogystal â gosod llygaid gwydr newydd ar y naw anifail gwreiddiol.



WAL YR ANIFEILIAID

ARCEDAU

Mae nodweddion allweddol arcedau Caerdydd yn cynnwys rhodfeydd a balconïau gwydrog, a blaenau siopau Fictoraidd traddodiadol. Arcêd Morgan, a adeiladwyd yn 1896 ar arddull Jacobeaidd traddodiadol, sy'n cynnwys y blaenau siopau mwyaf gwreiddiol o blith holl arcedau Caerdydd. Mae'r Arcedau eraill yn cynnwys: Arcêd Heol Fawr (1885); Arcêd Heol y Dug (1902) ac Arcêd y Castell (1887). Mae'r arcedau'n boblogaidd iawn gyda miloedd ar filoedd o siopwyr sydd am brynu eitemau unigryw a diddorol.

HEOL EGLWYS FAIR

Rhwng 1600 a 1800, Heol Eglwys Fair oedd yr unig ran o Gaerdydd i newid yn sylweddol o ran ei chynllun. Roedd hyn yn rhannol oherwydd newid cwrs afon Taf; gan ei symud i'r dwyrain tua'r ddinas. Rhoddwyd y gorau i addoli yn Eglwys Fair ddiwedd yr 1670au, a dymchwelwyd yr eglwys yn ddiweddarach gan lifogydd afon Taf.

Ailadeiladwyd Heol Fawr a Heol Eglwys Fair yn sylweddol rhwng 1880 a dechrau'r 1900au, yn cynnwys cynlluniau masnachol mawr megis Adeilad y Farchnad, Siop Adrannol James Howells a Gwesty'r Royal. Yn sgil y gwaith ailadeiladu helaeth hwn, fawr ddim sy'n weddill o'r cyfnod cyn 1850.

Prif Fap



Defnyddir gyda chaniatad caredig Llyfrgellau Caerdydd

HEOL EGLWYS FAIR

AFON TAF

Mae'r ddwy afon, sef y Taf Fechan a'r Taf Fawr, yn tarddu ym Mannau Brycheiniog ac yn cydlifo ger Merthyr Tudful i ffurfio Afon Taf. Yng Nghaerdydd, newidiwyd cwrs naturiol yr afon yn ystod y 19eg ganrif o Gastell Caerdydd, ac mae bellach yn dilyn llwybr i'r gorllewin o'i chwrsgwreiddiol. Mae'r afon yn llifo i'r morglawdd, a godwyd ar draws aberoedd afonydd Taf ac Elái, ac allan i Aber Afon Hafren.

Mae gan Gwm Taf hanes cyfoethog, a chan ei fod yn llwybr masnach pwysig llygrwyd yr afon dros y blynyddoedd. Fodd bynnag, mae'r afon bellach yn cynnwys toreth o fywyd gwylt ac mae'n boblogaidd gydag eogiaid ymfudol ac ambell ddyfrgi.





LLONG YSBYTY HAMADRYAD

Adeiladwyd y llong ysbyty yn yr 1820au ond ni chafodd ei ddefnyddio yn weithredol. Felly y bu tan yr 1860au pan wnaed trefniadau i newid y llong i fod yn ysbyty morwyr. Roedd Dr Henry Paine, sef y dyn a sefydlodd yr ysbyty, o'r farn mai llong fyddai'r llety mwyaf addas ar gyfer morwyr sâl. Talwyd am y gwaith o greu'r llong ysbyty drwy gyfraniadau gwirfoddol gan forwyr a oedd yn defnyddio porthladd Caerdydd.

Adnewyddwyd y llong gyda lle ar gyfer rhwng 60 a 65 o gleifion mewnol, gyda chyfleusterau ar gyfer meddyg a'i staff. Pan gyrhaeddodd y llong Gaerdydd, fe'i gosodwyd ar dir gwastraff a roddwyd gan Ardalydd Bute a elwid Rat Island – sef yr ardal a ddatblygodd i fod yn Tiger Bay. Agorodd yr ysbyty yn 1866, ac am nifer o flynyddoedd hi oedd un o'r ddau ysbyty yn unig a oedd yn cynnig triniaeth ddi-dâl i forwyr o bob cenedl. Erbyn yr 1890au, roedd dros 10,000 o gleifion yn derbyn triniaeth bob blwyddyn. Gwnaed ychwanegiadau pellach i'r ysbyty yn cynnwys strwythur pren ar y lan i ddarparu gwelyau ar gyfer hyd at 40 o gleifion gydag afiechydon heintus. Am nifer o flynyddoedd hon oedd yr unig ganolfan yn y ddinas ar gyfer trin afiechydon o'r fath.

Yn anffodus, erbyn 1897 cydnabuwyd nad oedd safon y llong yn ddigon da oherwydd nad oedd o'r un safon ag Ysbyty'r Undeb. Adeiladwyd ysbyty newydd i forwyr ar y lan yn 1904 yn lle'r llong, a hefyd er mwyn coffáu Jiwbillt Diemwnt y Frenhines Fictoria. Agorwyd Ysbyty Brenhinol newydd Hamadryad yn swyddogol yn 1905 gan Bedwerydd Ardalydd Bute.

LLONG YSBYTY HAMADRYAD

Defnyddir gyda chaniatad caredig Llyfrgellau Caerdydd



Y LLONG DDRYLLIEDIG LOUISA

Roedd y 'Louisa' yn llong fasnach fawr y gwyddys iddi weithredu o ddociau Caerdydd yn ail hanner y 19eg ganrif. Fe'i hadeiladwyd yn wreiddiol yng Nghanada yn 1851, ac mae'n debyg y'i defnyddiwyd i gludo pren o Ganada i borthladdoedd ym Mhrydain. Mae'r safle dan y dŵr drwy amser bellach ers codi'r morglawdd ym Mae Caerdydd.

Rhoddwyd statws Heneb Gofrestredig i'r Llong Ddrylliedig yn 2001. Mae Heneb Gofrestredig yn safle archeolegol neu adeilad hanesyddol a ddiogelir rhag newidiadau heb awdurdod.

[Main Map](#)

[Defnyddir gyda chaniatad caredig Llyfrgellau Ceredigion](#)



Y LLONG DDRYLLIEDIG LOUISA



Y GYFNEWIDFA LO

Defnyddir gyda chaniatad caredig Llyfrgellau Caerdydd

Y GYFNEWIDFA LO

Adeiladwyd y Gyfnewidfa Lo yn Sgwâr Mount Stuart yn yr 1880au mewn cyfnod pan roedd Caerdydd yn un o borthladdoedd mwyaf y byd o ran allforio glo. Fe'i hadeiladwyd fel canolfan ar gyfer masnachu â phyllau glo'r Cymoedd.

Ar ôl agor yr adeilad, cyfarfu perchenogion pyllau glo, perchenogion llongau a'u hasiantau yn y neuadd bob dydd i fasnachu. Yn ystod y cyfnod masnachu prysuraf, sef rhwng canol dydd ac un o'r gloch, byddai cymaint â 200 o ddynion wrthi'n gwaeddi ac yn taro bargeinion, gyda thua 10,000 o bobl yn defnyddio'r adeilad bob dydd.

Ysgrifennwyd y siec gyntaf gwerth un filiwn o bunnoedd yn y byd yn y Gyfnewidfa Lo yn 1901.

STRYD BUTE

Cyn adeiladu Stryd Bute, dolydd a chorstir oedd yr ardal yn bennaf. Yn yr 1820au, sylweddolodd yr Ail Ardalydd Bute nad oedd Camlas Morgannwg yn ddigonol i ymdopi â galwadau'r fasnach lo, felly rhoddodd gynllun datblygu ar waith a oedd yn cynnwys adeiladu Stryd Bute. Hon oedd y brif ffordd i mewn ac allan o ardal y dociau.

Mae llawer o adeiladau rhestredig ar hyd Stryd Bute yn cynnwys Adeilad Cory's (57 Stryd Bute). Saif yr adeilad rhestredig Gradd II hwn â phum llawr ar gornel Plas Bute a Stryd Bute ac fe'i codwyd yn 1889 ar gyfer Cory Brothers and Co. Ltd. Roedd y brodyr Cory yn ddynion busnes llwyddiannus a oedd yn gwerthu ac allforio glo.

Mae Gorsaf Reilffordd Bae Caerdydd yn adeilad pwysig arall. Codwyd yr adeilad rhestredig Gradd II* hwn ar gyfer Rheilffordd hanesyddol Cwm Taf yn 1843, ac roedd yn hollbwysig i'r fasnach allforio glo. Gerllaw roedd man ymadael y trên cyntaf oll i redeg yn ne Cymru ym mis Hydref 1840, pan agorodd Rheilffordd Cwm Taf ei rheilffordd gyntaf. Fe'i gwerthwyd ynghyd â Dociau Bute a Rheilffordd Caerdydd i gwmni'r Great Western Railway yn 1920, ac am gyfnod hon oedd y system reilffordd brysraf a phwysicaf yn y byd.



STRYD BUTE

ADEILAD Y PIERHEAD

Mae Adeilad y Pierhead yn adeilad rhestredig Gradd I, ac mae'n un o adeiladau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Saif fel un o dirnodau mwyaf cyfarwydd dinas Caerdydd, ac fe'i adeiladwyd fel pencadlys cwmni Bute Dock.

Dyluniwyd yr adeilad, a godwyd ddiwedd yr 1890au, gan y pensaer o Gymru William Frame, fu hefyd yn gweithio ar adnewyddu Castell Caerdydd a Chastell Coch. Mae nodweddion yr adeilad yn cynnwys tŵr cloc trawiadol ac arfbais sy'n cynnwys arwyddair Cwmni Bute Dock: "wrth ddŵr a thân" sy'n crynhoi'r elfennau a greodd y pŵer stêm a drawsnewidiodd Cymru. Y nodweddion hyn, ynghyd a'i gysylltiad agos â datblygiad y Dociau, sy'n gyfrifol am statws Gradd I yr adeilad hwn.



ADEILAD Y PIERHEAD

TIGER BAY

Tiger Bay oedd yr enw lleol am yr ardal yng Nghaerdydd a oedd yn cynnwys Butetown a Dociau Caerdydd. Roedd gan yr ardal hon enw drwg am fod yn beryglus, a byddai morwyr o bedwar ban byd ond yn aros mor hir a gymerid i ddadlwytho a llwytho'u llongau. O ganlyniad, cyflawnwyd llawer o droseddau yn yr ardal, gyda llofruddiaethau a throseddau llai heb eu datrys, gan fod y troseddwr wedi hwylio i borthladdoedd eraill. Defnyddid yr enw "Tiger Bay" (yn enwedig gan forwyr) i ddisgrifio unrhyw ddoc neu dref glan môr ag iddynt enw drwg am yr un rhesymau.

Prif Fap



Defnyddir gyda chaniatad caredig Llyfrgellau Caerdydd

TIGER BAY

BAE CAERDYDD

Bae Caerdydd yw'r ardal a grëwyd gan Forglawdd Caerdydd, a bellach caiff ei hystyried fel un o brosiectau adfywio mwyaf Ilwyddiannus y DU.

Chwaraeodd Bae Caerdydd ran bwysig yn natblygiad y ddinas drwy allforio glo o'r Cymoedd i weddill y byd, gan helpu i bweru'r oes ddiwydiannol. Datblygwyd Caerdydd fel prifddinas Cymru ar sail y diwydiant glo, a theulu Bute, sef perchennogion y dociau, oedd y teulu cyfoethocaf yn y byd ar y pryd.

Wrth i allforion o Gaerdydd gynyddu, cynyddu hefyd wnaeth y boblogaeth. Daeth gweithwyr doc a morwyr o bedwar ban y byd i ymgartrefu mewn cymunedau'n agos i'r dociau, yn ardal Tiger Bay, a hynny o dros 45 o wledydd gwahanol gan gynnwys Norwy, Somalia, Yemen, Sbaen, yr Eidal, y Caribî ac Iwerddon. Dyma a greodd gymeriad amlddiwylliannol unigryw'r ardal.



BAE CAERDYDD

DOCIAU CAERDYDD

Yn sgil llwyddiant cynyddol Camlas Morgannwg yn 1798, ehangodd Caerdydd yn gyflym iawn gan ddod y prif borthladd ar gyfer allforio glo.

Er mwyn diwallu'r galw cynyddol am gyfleusterau cludo ar longau, agorwyd Doc Gorllewinol Bute ddiwedd yr 1830au. Adeiladwyd tri doc arall wedi hynny yn sgil twf cyflym y fasnach lo (Doc Dwyreiniol Bute, Doc y Rhath a Doc y Frenhines Alexandra).

Ar ôl dirywiad y fasnach lo, aeth dociau Caerdydd a'i ben iddo. Yn 1987 sefydlwyd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ailddatblygu Dociau Caerdydd a'r ardal o'i hamgylch. Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd fu'n gyfrifol am adeiladu Morglawdd Bae Caerdydd a'r datblygiadau siopau a thai newydd ger yr hen ddociau a Roald Dahl Plass, ac yn sgil hyn mae Dociau Caerdydd yn ardal brysur a diddorol unwaith eto.



YR EGLWYS NORWYAIDD

Sefydlwyd yr Eglwys Norwyaidd yn yr 1860au er mwyn diwallu anghenion crefyddol a chymdeithasol y miloedd o forwyr o Norwy fu'n defnyddio dociau Caerdydd bob blwyddyn. Roedd ei lleoliad gwreiddiol rhwng y Dociau Dwyreiniol a Gorllewinol ar dir a roddwyd gan Ardalydd Bute. Datgymalwyd yr eglwys a'i hailadeiladu ar ei safle presennol er mwyn gwneud lle i ailddatblygu'r Dociau.

Yn ei hanterth, roedd yr eglwys yn fan cyfarfod enwog ar gyfer morwyr o Sgandinafia, gan wasanaethu tua 73,000 o forwyr bob blwyddyn. Roedd yr Eglwys, a addurnwyd â lluniau o deuluoedd brenhinol Norwy, Denmarc a Sweden, yn gartref oddi cartref i'r morwyr lle gallent ddarllen papurau newyddion a chylchgronau yn eu mamiaith. Gosodwyd lluniau o olygfeydd o Norwy ar y waliau, ac addurnwyd y byrddau â baneri Norwy bychain.

Gyda dirywiad y farchnad lo, aeth llongau Norwy i borthladdoedd eraill, felly bu gostyngiad yn nifer y morwyr hefyd. Arhosodd yr Eglwys ar agor am nifer o flynyddoedd ar ôl hyn, tan y bu'n rhaid iddi gau yn 1974 oherwydd y baich ariannol. Heb waith cynnal a chadw aeth yr adeilad â'i ben iddo, tan iddo gael ei achub rhag ebargofiant gan y gwaith o ddatblygu'r Bae. Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Gadwraeth yr Eglwys Norwyaidd er mwyn cyd-drefnu'r gwaith o ddatgymalu ac ailadeiladu'r eglwys yn 1987. Codwyd arian yng Nghymru a Norwy er mwyn cyflawni'r nod hwn.

Mae gan yr eglwys gysylltiadau â'r awdur enwog Roald Dahl, a dreuliodd ei blentyndod a'i ddyddiau ysgol yng Nghaerdydd, ac roedd ei deulu'n addoli yn yr eglwys.

Am ragor o wybodaeth am yr Eglwys Norwyaidd cliciwch yma.
Addaswyd o: <http://www.norwegianchurchcardiff.com>



YR EGLWYS NORWYAIDD

FFYN MORTICELS

Diben ffyn morticels oedd darparu strwythur sefydlog ar gyfer angori cychod. Defnyddid y ffyn hyn gan y llongau lliaws fu'n defnyddio Dociau Caerdydd yn eu hoes aur.



FFYN MORTICELS